Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2007

Teitl: Prifysgolion Cymru yn talu'n dda

Mae ffigurau a gyhoeddir heddiw yn dangos bod prifysgolion fel cynhyrchwyr incwm yn parhau i hybu economi a chymunedau Cymru.

Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru nid yn unig yn creu busnesau ac yn gweithio gyda busnesau er cynnydd economaidd – maent yn cynorthwyo ag adfywio lleol hefyd.

Mae chweched adroddiad arolwg blynyddol *Rhyngweithiad Addysg Uwch – Busnes a Chymuned (HE-BCI)* yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wella ar draws ystod o ddangosyddion cyfraniad economaidd a chymdeithasol trwy weithgareddau fel cyflwyno gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori neu fasnacheiddio gwybodaeth newydd.

Mae'r arolwg, a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), ac a gyllidwyd ar y cyd gan y cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn datgelu:

- Yn ystod blwyddyn academaidd 2005/06, roedd Cymru'n cyfrif am 11% o'r incwm o ymchwil ar y cyd a gynhwysai cyllid cyhoeddus a chyllid gan fusnes, gan berfformio'n well na chwe o'r naw rhanbarth Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol (RDA) yn Lloegr. Mae'r incwm a gynhyrchir yn y maes hwn yng Nghymru wedi cynyddu mwy na 70% ers 2001/02.

- Mae Cymru'n cyfrif am bron i 9% o incwm y DU o gontractau ymgynghori â busnesau bach a chanolig (SMEau). Ers 2001/02, mae nifer y contractau ymgynghori â SAUau yng Nghymru wedi cynyddu mwy na 300%.

- Mae gan Gymru bron i 7% o bortffolio cronnus sector addysg uwch y DU ar gyfer patentau actif, sydd unwaith yn rhagor yn berfformiad gwell na saith o'r naw rhanbarth RDA yn Lloegr. Mae gweithgareddau patentau wedi cynyddu cryn lawer ers 2001/02.

- Yn ystod 2005/06, yng Nghymru y cafwyd 13.5% o'r holl weithgaredd deillio busnes – 'spinout' - a busnesau a gychwynnwyd gan staff yn y sector addysg uwch, ac 13.5% o'r holl fusnesau a gychwynnwyd gan raddedigion yn y DU. Ers 2001/02, mae nifer y cwmnïau deillio a busnesau a gychwynnwyd gan staff a oroesodd am fwy na thair blynedd wedi cynyddu 88%, gyda throsiant amcangyfrifedig yr holl gwmnïau actif yn cynyddu o fwy na 69% i fwy na £37 miliwn.

Meddai Carwyn Jones, y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg: "Mae sector addysg uwch Cymru yn gyfrannwr allweddol at economi Cymru. Mae gweld perfformiad gwell eto o flwyddyn i flwyddyn yn rhoi boddhad mawr i mi. Mae addysg uwch yn cyflawni'n well na'r disgwyl yn y maes hwn. Rwy'n disgwyl i'r sector barhau â'r llwyddiant hwn."

Meddai'r Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd CCAUC: "Mae'r arolwg hwn yn dangos na allwn werthfawrogi'n rhy isel gyfraniad economaidd a chymunedol addysg uwch yng Nghymru at y busnesau a'r mentrau cymdeithasol y maent yn gweithio gyda nhw. Bu'r tyfiant yn ystod y chwe blynedd diwethaf yn rhagorol, gyda phrifysgolion Cymru nid yn unig yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond hefyd yn rhagori ar ddisgwyliadau am sector o'i faint, sydd i'w gyfrif am tua phump y cant o addysg uwch yn y DU."

Nodiadau:

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE):

http://www.hefce.ac.uk/pubs/hefce/2007/07_17/

- Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:
  - darparu addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
  - cynnal ymchwil gan SAUau; a
  - darparu cyrsiau addysg uwch rhagnodedig mewn sefydliadau addysg uwch.

  Mae CCAUC yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant addysg cychwynnol i athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant i athrawon hefyd.

  Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn darparu cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch anghenion cyllido, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Cysylltiadau i gael mwy o wybodaeth

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.uk